

CYFLWYNIAD

1. Mae gan elusennau le arbennig mewn cymdeithas a dylai'r gyfraith eu diogelu a'u rheoleiddio yn gywir. Amcan ein prosiect yw hyrwyddo'r amcanion hyn trwy gael gwared ar neu addasu rheoliadau anaddas tra'n diogelu budd y cyhoedd trwy sicrhau bod elusennau'n cael eu rhedeg yn gywir. Ar hyn o bryd mae elusennau yn wynebu beichiau gweinyddol ac ariannol diangen oherwydd cyfraith aneffeithiol ac afresymol o astrus. Mae ein Hadroddiad yn dadansoddi materion technegol amrywiol ym maes cyfraith elusennau ac yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer diwygio.
2. Nid yw ein prosiect yn adolygiad cyflawn o gyfraith elusennau. Mae ein cylch gorchwyl yn berthnasol i faterion technegol dethol. Nid yw'r materion hynny yn cynnwys nifer o faterion dadleuol sydd wedi cael proffil uchel yn ddiweddar, megis cyfraith budd y cyhoedd, statws elusennol ysgolion annibynnol neu ymarferion codi arian.¹
3. Cafodd prosiect ar faterion dethol ym maes cyfraith elusennau ei gynnwys yn ein 11^{fed} Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith.² Dechreuodd y prosiect gydag adolygiad o fuddsoddiad cymdeithasol gan elusennau yn 2014,³ ac mae ein prif argymhellion ar y pwnc hwnn wedi eu gweithredu yn awr fel rhan o Ddeddf Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol) 2016.⁴ Yna buom yn ymgynghori ar y materion oedd yn weddill yn ein cylch gorchwyl - testun yr Adroddiad hwn - rhwng misoedd Mawrth a Gorffennaf 2015,⁵ gydag ymgynghoriad atodol rhwng misoedd Medi a Hydref 2016.⁶ Cawsom ymateb brwdfrydig i'n hymgyngoriadau a chafodd pob un o'r prif randdeiliaid yn y sector elusennau eu cynrychioli. Rydym yn ddiolchgar am yr holl ymatebion manwl dderbyniwyd gennym. Roedd yr ymgynghoriad wedi datgelu cydsyniad cyffredinol ar rai materion ac ystod o ddaliadau ar eraill. Tra ar lawer o faterion rydym yn dilyn ein cynigion dros dro yn y Papurau Ymgynghori, mewn rhai meysydd rydym wedi gwyrto oddi wrthynt mewn ymateb i sylwadau gan ymgynghoreion.
4. Mae'r adroddiad yn gwneud 43 argymhelliad ac yn cynnwys Bil drafft a fyddai'n rhoi effaith i'n hargymhellion ar gyfer diwygio deddfwriaethol. Mae'r Crynodeb hwn yn darparu trosolwg o'r prif faterion a godwyd ymhob pennod o'r Adroddiad, gyda chroesgyfeiriadau at y paragraffau perthnasol yn yr Adroddiad, er mwyn helpu darllenwyr i ganfod eu ffordd trwy'r papur ac adnabod yr argymhellion sydd o ddiddordeb iddynt. Ochr yn ochr â'r Adroddiad, rydym wedi cyhoeddi ar ein gwefan fersiwn â nodiadau arni o Ddeddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf Elusennau") yn dangos

¹ Mae ein Hadroddiad yn trafod beth ddylai ddigwydd pan fydd apêl am arian yn codi gormod neu rhy ychydig o arian ond nid yw'n trafod y ffordd mae elusenmnu yn bwrw ati i godi'r cronfeydd hyn; yn y cyswllt hwn mae rheoleiddiwr codi arian newydd wedi ei greu.

² 11^{fed} Rhaglen Diwygio'r Gyfraith (2011) Comisiwn y Gyfraith Rhif 330.

³ Y defnydd o gronfeydd elusennol i gael enillion ariannol a lles cymdeithasol yw buddsoddiad cymdeithasol. Gall hyn gynnwys cael cyfradd is o enillion ariannol a fyddai ar gael o fuddsoddiad prif lif, neu dderbyn hylifedd gostyngol.

⁴ Social Investment by Charities (2014) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 216; Social Investment by Charities: Argymhellion Comisiwn y Gyfraith (Medi 2014), ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan Comisiwn y Gyfraith ar <http://www.lawcom.gov.uk/project/charity-law-social-investment-by-charities/>.

⁵ Materion technegol yn ymgynghoriad Deddf Elusen (2015, CP220).

⁶ Materion technegol yn ymgynghoriad atodol Deddf Elusen (2016).

y newidiadau byddai ein Bil drafft yn ei wneud i'r Ddeddf honno, Dadansoddiad o'r Ymatebion i'r Papurau Ymgynghori ac Asesiad Effaith.

CEFNDIR (PENODAU 1 I 3)

5. Ym Mhennod 1 rydym yn egluro swyddogaeth elusennau mewn cymdeithas, cefndir y prosiect a'n hamcanion wrth argymhell diwygio. Bwriad yr amcanion hyn yw i gael gwared ar reoliadau a biwrocratiaeth ddiangen, tra'n sicrhau bod y rheoliadau priodol mewn lle; i gynyddu hyblygrwydd ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau er budd pennaf eu helusennau; i gyflwyno grymoedd ehangach neu atodol i Gomisiwn yr Elusennau er mwyn cynyddu ei effeithioldeb; i sicrhau diogelu eiddo elusennau yn ddigonol; ac i gael gwared ar anghysondebau a chymlethdodau yn y gyfraith.
6. Ym Mhennod 2 byddwn yn disgrifio amrywiol ffurfiau cyfreithiol elusennau ac yn categorïddio elusennau gwahanol dan y Ddeddf Elusennau. Ym Mhennod 3 rydym yn cynnig sylwadau ar bwynt cyffredinol a godwyd gan nifer o ymgynghoreion ynghylch trothwyon ariannol yn y Ddeddf Elusennau ac yn argymhell y ffordd y gall y Llywodraeth eu hadolygu o dro i dro ac, os yn briodol, eu cynyddu yn unol â chwyddiant.

NEWID PERWYLION, ADDASU DOGFENNAU LLYWODRAETHOL A GWEITHREDU CY-PRÛS EIDDO (PENODAU 4 I 6)

7. Gall elusennau gymryd sawl ffurf cyfreithiol gwahanol.⁷ Gall elusen fod yn gorfforedig, sydd yn golygu bod ganddi bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân i'w hymddiriedolwyr⁸ a'u haelodau (os oes yna rai). Mae elusennau corfforedig yn cynnwys cwmnïoedd elusennol, sefydliadau corfforedig elusennol ("CIOs"), elusennau a ymgorfforwyd gan Siarter Frenhinol ac elusennau a ymgorfforwyd gan Ddeddf Seneddol. Nid oes gan elusen anghorfforedig bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân a bydd wedi ei strwythuro naill ai fel ymddiriedolaeth neu fel cymdeithas anghorfforedig.
8. Mae gan bob elusen, beth bynnag yw ei ffurf gyfreithiol, ddogfen lywodraethu, sef llyfr rheolau'r elusen: mae'n gosod allan beth yw pwrpas sefydlu'r elusen, grymoedd a dyletswyddau ei hymddiriedolwyr a'r rheolau perthnasol i lywodraethu mewnol (er enghraifft, rheolau ar benodi a chael gwared ar ymddiriedolwyr). Gall fod angen i elusen newid ei dogfen lywodraethu am nifer o resymau, o newidiadau technegol mân i newidiadau sylfaenol i'r ffordd mae'r elusen yn cael ei rhedeg neu'r amcan elusennol mae'n canlyn. Mae'n bwysig bod y newidiadau yn digwydd mor gyflym ac effeithiol â phosibl, tra'n cadw'r dulliau diogelu er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau er budd pennaf yr elusen a'r rhai sydd yn manteisio arni. Ma'e gweithdrefnau diwygio sydd ar gael i elusen yn dibynnu ar ei ffurf gyfreithiol: mae'r Ddeddf Elusennau yn trin elusennau corfforaethol yn wahanol i elusennau anghorfforedig, ac mae elusennau a lywodraethir gan Siarter Frenhinol a gan Ddeddf Seneddol yn amodol ar gyfundrefnau arbennig.
9. Mae Pennod 4 yn canolbwyntio ar y cyfundrefnau sydd ar gael i gwmnïoedd elusennol, CIOs, ymddiriedolaethau a chymdeithasau anghorfforedig, ac ar y gwahaniaethau rhyngddynt. Rydym wedi dod i'r casgliad byddai alinio'r cyfundrefnau ar gyfer elusennau

⁷ Fel y gweler ym Mhennod 2 yr Adroddiad.

⁸ Wrth ddweud ymddiriedolwyr rydym yn cyfeirio at y personau sydd â goruchwyliaeth gyffredinol a rheolaeth dros weinyddiaeth elusen, p'un ai eu bod, yn dechnegol, yn ymddiriedolwyr ar ymddiriedolaeth neu beidio.

corfforaethol ac anghorfforedig o fudd er mwyn symlder yn y gyfraith a chysondeb yn eu hymdriniaeth o elusennau. Rydym yn argymhell grym statudol newydd ar gyfer elusennau anghorfforedig i wneud unrhyw newidiadau yn eu dogfennau llywodraethu trwy benderfyniadau eu hymddiriedolwyr (ac, os yn briodol, yr aelodau) gyda rhai diwygiadau yn amodol ar gydsyniad Comisiwn yr Elusennau: paragraffau 4.75 i 4.115 a 4.121. Mae'r argymhelliad hwn yn adlewyrchu grymoedd statudol y cwmnïoedd elusennol a'r CIOs sydd yn bodoli eisoes. Mae'r angen am gydsyniad Comisiwn yr Elusennau yn darparu dull pwysig o ddiogelu mewn perthynas â diwygiadau mwy arwyddocaol ac, o bosibl, dadleuol. Byddai'r grym newydd yn cymryd lle y grymoedd statudol sydd ar gael ar hyn o bryd i rai elusennau anghorfforedig, neu mewn perthynas â rhai diwygiadau, dan adrannau 275 a 280 y Ddeddf Elusennau, sydd yn peri nifer o broblemau yn ymarferol.

10. Yn ogystal rydym yn trafod yr anghenion penodol sydd yn weithredol pan fydd elusennau corfforaethol neu anghorfforedig yn dymuno diwygio eu pwrpasau. Yn gyffredinol mae angen cydsyniad Comisiwn yr Elusennau ar ddiwygiadau o'r math hyn, ond mae'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a ddylid cydsynio neu beidio yn wahanol yn ôl ffurf gyfreithol yr elusen dan sylw. Unwaith eto rydym yn argymhell alinio'r sefyllfaoedd ar gyfer elusennau corfforaethol ac anghorfforedig, ac yn argymhell un set o feini prawf sydd angen i Gomisiwn yr Elusennau ei hystyried wrth benderfynu a ddylai gydsynio i gwmni elusennol, CIO, ymddiriedolaeth neu gymdeithas anghorfforedig newid ei bwrpasau: paragraffau 4.123 i 4.139.
11. Ym Mhennod 5 rydym yn edrych ar sefyllfa elusennau a lywodraethir gan Ddeddf Seneddol ("elusennau statudol") a gan Siarter Frenhinol ("elusennau Siarter Frenhinol"). Mae llawer o'r ymgylgoreion yn teimlo bod y gweithdrefnau sydd yn rhaid i'r elusennau hyn eu dilyn er mwyn diwygio eu dogfennau llywodraethu yn hir, yn fiwrocataidd ac yn ddrud, er gwaethaf y cymorth sydd ar gael gan Swyddfa'r Cyfrin Gyngor, Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") a Chomisiwn yr Elusennau. Mae'n rhaid i elusennau statudol ofyn i Gomisiwn yr Elusennau ddrafftio "cynllun" i'w gymeradwyo gan y Senedd dan adran 73 y Ddeddf Elusennau, a all fod yn broses faith. Rhaid i elusennau Siarter Frenhinol ofyn i'r Cyfrin Gyngor gymeradwyo diwygiadau neu ganiatáu Siarter atodol; eto, gall y prosesau fod yn faith ac yn ddrud i'r elusen, yn enwedig os yw'r diwygiad ar ddull Siarter atodol sydd yn rhaid ei argraffu ar femrwn. Mae'r gofynion ar gyfer arolygiaeth Seneddol a'r Cyfrin Gyngor yr un fath, beth bynnag yw sylwedd y diwygio arfaethedig; rhaid i newid i bwrpasau'r elusen ddilyn yr un drefn â newid i'r nifer o ymddiriedolwyr os yw'r darpariaethau sydd yn llywodraethu'r materion hynny wedi eu cynnwys yn yr un ddogfen.
12. Rydym yn argymhell grym i elusennau Siarter Frenhinol ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn eu Siarter (os na fedr y diwygio ddigwydd eisoes gan ddefnyddio unrhyw rym diwygio sydd yn bod eisoes) yn amodol ar gydsyniad y Cyfrin Gyngor: paragraffau 5.44 i 5.56. Byddai'r argymhelliad hwn yn cael gwared ar yr angen i gael Siarter atodol. Ar gyfer yr achosion hynny lle mae Siarter atodol yn dal yn beth dymunol, rydym yn argymhell bod y Cyfrin Gyngor (i) yn adolygu ei bolisi ar gyhoeddi deisebau yn y London Gazette am wyth wythnos, a (ii) rhoi'r gorau i'r cais am argraffu Siarteri atodol ar femrwn: paragraffau 5.61 i 5.69. Ar gyfer elusennau statudol, rydym yn argymhell bod yr holl gynlluniau yn adran 73 yn amodol ar y weithdrefn Seneddol negyddol, a fydd, gobeithio, yn hwyluso'r broses i'r elusennau hynny a oedd gynt wedi gorfod defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol fwy llafurus: paragraffau 5.115 i 5.118.

13. Buom yn ymgynghori ar gyflwyno grym i elusennau statudol a Siarter Frenhinol i wneud newidiadau mân i'w dogfennau llywodraethu heb arolygiaeth Seneddol neu'r Cyfrin Gyngor. Yng ngoleuni'r pryderon a godwyd gan ymgynghoreion ynghylch y fath rym diwygio, rydym yn argymhell yn lle hynny y dylid darparu canllawiau clir a hygyrch ynghylch (i) y broses a ddefnyddir wrth wneud diwygiadau, ac (ii) ailstrwythuro'r dogfennau llywodraethu er mwyn sicrhau galluogi bod rhai materion (llai pwysig) yn cael eu diwygio yn y dyfodol heb arolygiaeth: paragraffau 5.72 i 5.107. Rydym yn gobeithio y bydd y canllawiau amgen hyn yn cynyddu tryloywder ac yn annog ymddiriedolwyr elusennau i ymwneud â'r broses o newid cyfansoddiadol lle mae gwneud hyn er budd yr elusen. Yn ogystal, rydym yn argymhell sefydlu grŵp defnyddwyr i alluogi y rhai hynny sydd yn ymwneud â'r broses o ddiwygio Siarteri a deddfau lleol i argymhell a thrafod newidiadau ymarferol i'r weithdrefn.
14. Yn olaf rydym yn trafod sefydliadau addysg uwch ("HEIs"), y mae llawer ohonynt yn elusennau Siarter Frenhinol. Rydym yn nodi'r diwygiadau arwyddocaol mewn perthynas â Sefydliadau Addysg Uwch (HEIs) Saesneg a gyflwynwyd gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017, sydd yn mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd yn ein hymgynghoriad. Fodd bynnag, nid yw'r diwygiadau hyn yn ymestyn i Gymru (gan fod addysg wedi ei datganoli) ac felly rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno canllawiau (fel yr amlinellir ym mharagraff 13 uchod) wedi eu teilwra i Sefydliadau Addysg Uwch, yn ogystal â chael gwared ar y gofynion anhyblyg ar gyfer dogfennau llywodraethu yn Neddf Diwygio Addysg 1988: paragraffau 5.149 i 5.152.
15. Mae Pennod 6 yn ymwneud â sefyllfa lle codir gormod, neu rhy ychydig, o arian gan elusen mewn ymateb i apêl codi arian. Lle codir gormod o arian, gall Comisiwn yr Elusennau gyfeirio'r gweddill cy-près.⁹ Ond pan godir rhy ychydig, gan amlaf ni feddir defnyddio'r gronfa cy-près ac yn lle hynny rhaid i'r ymddiriedolwyr geisio cysylltu â'r rhoddwyr a chynnig ad-daliad iddynt.¹⁰ Yn achos cyfraniadau bychain, bydd y gost o wneud hyn yn aml yn amghymesur â gwerth y rhodd. Rhaid cael cydbwysedd rhwng diogelu dymuniadau'r rhoddwyr a'r anghyfleustra gweinyddol a'r gost o geisio cysylltu â rhoddwyr. Nid ydym yn credu y byddai rhoddwyr yn disgwyl (ac efallai hyd yn oed yn anghymeradwyo) ymddiriedolwyr yn cysylltu â hwy i geisio cynnig ad-daliad o rhodd fechan iddynt. Felly rydym yn argymhell bod rhoddion bychain (hyd at £120) yn gymwys cy-près heb bod gofyn i'r ymddiriedolwyr gymryd camau i gysylltu â'r rhoddwyr, oni bai bod y rhoddwr yn nodi fel arall pan yn cyflwyno'r rhodd: paragraffau 6.36 i 6.46.
16. Pan fydd derbyniadau apêl codi arian yn gymwys cy-près (naill ai am fod gormod neu rhy ychydig wedi ei godi), gall yr ymddiriedolwyr ofyn i Gomisiwn yr Elusennau greu cynllun yn awdurdodi'r arian hynny i gael ei ddefnyddio at amcanion tebyg. Yn achos cronfa fechan, gall y gost o gael cynllun (o ochr yr elusen a'r Comisiwn) fod yn anghymesur â gwerth y gronfa. Rydym felly yn argymhell, lle bo cronfa sydd yn gymwys cy-près ddim yn fwy na £1,000, dylai'r ymddiriedolwyr gytuno bod yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y dibenion newydd heb gydsyniad Comisiwn yr Elusennau: paragraffau: 6.70 to 6.80. Pan yn penderfynu ar benderfyniad o'r math hwn, byddai

⁹ Ystyr "Cy-près" yw "mor agos â phosibl". Lle nad oes modd cyflawni pwrpas elusennol, gall i Gomisiwn yr Elusennau gyfarwyddo dan gynllun bod y cronfeydd yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol eraill tebyg.

¹⁰ Mae rhai eithriadau astrus yn adrannau 63 i 66 y Ddeddf Elusennau, ac rydym yn argymhell eu symleiddio: paragraffau 6.48 i 6.65.

gofyn i'r ymddiriedolwyr ystyried priodoleb sicrhau bod y gronfa yn cael ei defnyddio at ddibenion tebyg.

RHEOLEIDDIO TRAFODION TIR ELUSENNOL (PENNOD 7)

17. Mae Pennod 7 yn ymwneud â thir elusennol. Mae elusennau yn amodol i gyfyngiadau pan fyddant yn gwerthu, gosod neu morgeisio eu tir.

- (1) Pan yn gwerthu tir, neu'n caniatáu prydles am fwy na saith mlynedd, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr yn gyffredinol gael adroddiad manwl gan arolygwr tir cymwys sydd yn cynnwys cyngor ar sut i farchnata'r tir a gwerth y tir.
- (2) Pan yn caniatáu prydles am lai na saith mlynedd, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr yn gyffredinol gael cyngor ar yr cynnig gan rywun y maent yn credu, yn rhesymol, sydd â'r gallu a'r profiad i gynnig y cyngor hwnnw.
- (3) Os yw'r gwerthiant neu'r brydles yn "dir a ddynodwyd" ¹¹ a bod yr ymddiriedolwyr ddim yn bwriadu cael tir yn ei le, rhaid iddynt hefyd roi rhybudd cyhoeddus o'r arwethiant neu brydles arfaethedig ac ystyried unrhyw gynrychioliadau a ddaw mewn ymateb.
- (4) Pan yn caniatáu morgais o dir elusennol, rhaid i'r ymddiriedolwyr gasglu cyngor ar (i) a yw'r benthyciad yn hanfodol er mwyn canlyn pwrpasau'r elusen, (ii) a yw amodau'r benthyciad yn rhesymol, a (iii) gallu'r elusen i ad-dalu'r benthyciad.
- (5) Ni chaniateir gwerthiannau a phrydlesi (ond nid felly morgeisi) i gategori a ddiffinir o "bersonau cysylltiedig" heb gydsyniad Comisiwn yr Elusennau.

18. Gall cydymffurfio â'r gofynion hyn beri i elusennau wynebu costau proffesiynol sylweddol a gall arafu trafodion tir. Yn ein Papur Ymgynghori, roeddem wedi cynnig dros dro:

- (1) disodli'r drefn gyda dyletswydd ar i ymddiriedolwyr, cyn cael gwared ar dir elusennol, geisio ac ystyried cyngor, ond gadael iddynt benderfynu ar ba gyngor fyddai'n briodol ar gyfer trafodiad penodol; a
- (2) rhoi grym i ymddiriedolwyr gael gwared ar y gofyniad i geisio cyngor lle roeddynt yn credu nad oedd gwneud hyn yn hanfodol.

Tra bod cryn dipyn o gefnogaeth ynghylch diwygio, roedd y rhai hyn yn gynigion dadleuol iawn, yn arwain at ddaliadau gwahanol ymhlith ymgynghoreion. Am nifer o resymau, a nodir yn yr Adroddiad, rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai cynnig (2) yn briodol: paragraffau 7.120 i 7.123.

19. Bwriad cynnig (1) oedd rhoi'r hyblygrwydd i ymddiriedolwyr i hel cyngor sydd wedi ei deilwra i'r trafodiad penodol. Roedd ymgynghoreion yn cefnogi'r polisi hwn, ond yn pwysleisio'r pwysigrwydd o arwain ymddiriedolwyr i'r categori cynghorwr cywir a'r priodoldeb o gael cyngor gan weithiwr proffesiynol ym maes eiddo. Rydym wedi dod i'r

¹¹ "Tir dynodedig" yw'r tir a ddeler ar ymddiried sydd yn gwneud amod ei fod i'w ddefnyddio at ddibenion, neu unrhyw ddibenion penodol, yr elusen: Deddf Elusennau, adran 121.

casgliad y gall ymddiriedolwyr gael yr hyblygrwydd i hel cyngor wedi ei deilwra, tra'n dal i'w harwain at gynghorwyr addas, trwy addasu'r gofynion cyngor sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

20. Rydym felly yn argymhell bod y sefyllfa gyfredol, lle mae gan ymddiriedolwyr ddyletswydd i gael ac ystyried cyngor, yn parhau. Ond er mwyn hwyluso darparu cyngor wedi ei deilwra, ac i ysgafnhau'r baich o gydymffurfio â'r gofyniad hwn, rydym yn gwneud dau argymhelliad.
 - (1) Ar hyn o bryd, gall elusennau ond cael cyngor oddi wrth aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Rydym yn argymhell ehangu'r categori o gynghorwyr sydd â'r hawl i gynnig cyngor ("cynghorwyr dynodedig") i gynnwys aelodau o'r Gymdeithas Ganolog o Werthuswyr Amaethyddol a chymrodyr Cymdeithas Genedlaethol yr Asiantau Tai; mae gan bob un o'r rhain gymwysterau proffesiynol, ac maent wedi ymrwymo i reolau ymddygiad proffesiynol, ac yn berchen ar yswiriant indemniad: paragraffau 7.133 i 7.139, a 7.175(1). Bydd modd i ymddiriedolwyr gael cyngor oddi wrth un o'r gweithwyr eiddo proffesiynol hyn, pan fydd y trafodiad o fewn arbenigedd penodol y gweithiwr proffesiynol. Byddai'r argymhelliad hwn yn ehangu'r gronfa o'r rhai hynny sydd yn medru cynnig cyngor ac yn galluogi ymddiriedolwyr i ddewis cynhgorydd sydd fwyaf addas ar gyfer y trafodiad dan sylw. Rydym hefyd yn argymhell bod ymddiriedolwyr yn medru ceisio cyngor gan gynghorwyr dynodedig sydd yn gweithio i neu'n swyddogion yr elusen, gan alluogi'r elusennau i arbed arian trwy ddefnyddio'r arbenigedd sydd ar gael: paragraffau 7.140 i 7.142, a 7.175(2).
 - (2) Pennir cynnwys adroddiad cynghorwr gan Reoliadau Elusennau (Adroddiadau Syrfewyr Cymwys) 1992. Rydym yn argymhell addasu'r Rheoliadau hyn i symleiddio a rhesymoli'r materion mae'n rhaid i gynghorwr eu gosod allan mewn adroddiad: paragraffau 7.124 i 7.142, a 7.175(3). Bydd hynny yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ac yn arwain at ymddireidolwyr yn derbyn cyngor sydd yn fwy cymwys i anghenion yr elusen mewn perthynas â'r trafodiad penodol.
21. Byddwn hefyd yn gwneud argymhellion pellach i fynd i'r afael â phroblemau gyda'r drefn gyfredol sydd yn gwneud y broses o waredu tir yn llafurus i elusennau. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys y canlynol.
 - (1) Rydym wedi dod i'r casgliad, yng ngoleuni'r ymatebion i'r yngynghoriad, bod y gofyniad statudol ychwanegol i roi rhybudd cyhoeddus ynghylch cael gwared ar dir dynodedig (gweler paragraff 17(3) uchod) yn ddiangen ac yn llafurus, a dylid ei waredu: paragraffau 7.229 i 7.231.
 - (2) Os yw ymddiriedolwyr elusen yn cael gwared ar dir ond yn methu cydymffurfio â gofynion y cynghorion a gafwyd, bydd y pwrcaswyr yn dal i gael eu diogelu os yw'r ymddiriedolwyr yn darparu tystysgrif sydd yn datgan eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion. Penderfynodd y llysoedd yn 2003,¹² fodd bynnag, bod pwrcaswyr ond wedi eu diogelu gan dystysgrif sydd wedi ei chynnwys yn y gwarediad (hynny yw, o bwynt y "cwblhau"); nid oes modd cyfwerth i ddiogelu

¹² *Bayoumi v Women's Total Abstinence Educational Union Ltd* [2003] EWCA Civ 1548, [2004] Pennod 46.

pwrcaswyr trwy gynnwys tystysgrif mewn cytundeb ynghylch cael gwared ar dir (hynny yw, o bwynt y "cyfnewid cytundebau"). Gall y diffyg diogelu hyn arwain at gostau trafodion ychwanegol i bwrcaswyr a gall wneud pwrcaswyr yn wylidwrs ynghylch trafod gydag elusennau; byddai hyn yn anfantais i elusennau. Felly rydym yn argymhell diwygio fyddai'n arwain at ddiogelu'r pwrcaswyr ar ffurf tystysgrif wedi ei chynnwys yn y cytundeb. Rydym hefyd yn argymhell diwygio er mwyn caniatáu cyflwyno tystysgrifau cydymffurfedd i'w rhoigan y person(au) sydd wedi eu hawdurdodi i lofnodi'r cytundeb neu'r trawsgludiad, yn hytrach na gorfod eu cael gan ymddiriedolwyr yr elusen yn bersonol: paragraffau 7.220 i 7.227.

- (3) Rhaid cael cysyniad Comisiwn yr Elusennau cyn trefnu gwarediad i "bersonau cysylltiedig" (gweler paragraff 17(5) uchod) i amddiffyn elusennau rhag y risg o waredu tir am lai na'i werth. Rydym yn argymhell nad oes yn rhaid cael cydsyniad Comisiwn yr Elusennau (i) ar gyfer gwared i is-gorff sydd wedi ei berchen yn llwyr gan yr elusen, neu (ii) prydles breswyl i gyflogai'r elusen: paragraffau 7.197 i 7.205, a 7.214. Bychan iawn yw'r risg o ddisbyddu asedau elusen o ganlyniad i wneud gwarediadau o'r math hyn am lai na'u gwerth, ac rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn anghymesur gorfod cael cydsyniad Comisiwn yr Elusennau ar eu cyfer.
 - (4) Rydym yn argymhell diwygio'r diffiniad o dir yn y darpariaethau statudol perthnasol, fel nad yw tir bellach yn amodol ar y trefniant rheoliadol os yw'n dir a ddelir dan ymddiried ar gyfer buddiolwyr lluosog (a bod un neu fwy o'r rhain yn elusennau): paragraffau 7.177 i 7.183. Mewn achosion fel y rhai hyn, mae dyletswyddau cyffredinol yr ymddiriedolwr(wyr) yn ddigonol i sicrhau bod telerau'r trafodion o fudd i bob un o'r buddiolwyr, gan gynnwys y buddiolwyr elusennol.
 - (5) Rydym yn argymhell newidiadau i ganllawiau Comisiwn yr Elusennau ar gyfer dod i feddiant tir, fel eu bod yn gyson â'r trefniant diwygiedig ar gyfer gwaredu tir: paragraffau 7.233 i 7.243.
22. Yn olaf, rydym yn ymdrin â gweithredu Deddf Ystadau Prifysgolion a Cholegau 1925 i drafodion tir, a'r gofynion penodol a osodir ar y sefydliadau a lywodraethir gan y Ddeddf honno. Rydym yn argymhell diwygio darpariaethau manwl ac astrus y Ddeddf a gosod, yn lle hynny, grym cyffredinol i waredu tir ar gyfer y nifer fechan o sefydliadau mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt: paragraffau 7.265 i 7.283.

Y DEFNYDD O WADDOL PARHAOL (PENNOD 8)

23. Ym Mhennod 8 rydym yn trafod gwaddol parhaol. Eiddo sydd yn berchen i elusen, na elir ei werthu, yw gwaddol parhaol, ac mae'n disgyn i un o'r ddau gategori a ganlyn.
- (1) Gall fod yn gronfa o asedau, megis cyfrannau, sydd yn creu incwm i gyllido gweithgareddau'r elusen. Gall yr elusen werthu buddsoddiad yn y gronfa i bwrcasu un arall, ond ni fedr werthu buddsoddiad a gwario'r enillion i hyrwyddo ei phwrcasau. Gelwir hyn yn "fuddsoddiad gwaddol parhaol".
 - (2) Gall fod yn eiddo nad yw'n cynhyrchu'r incwm ond a ddefnyddir gan yr elusen i hyrwyddo ei hamcanion; er enghraifft neuadd bentref neu dir hamdden. Efallai gall yr elusen werthu'r eiddo a phwrcasu eiddo arall sydd yn gweithredu yn yr un

modd, ond ni fedr wario enillion y gwerthiant ar ei gweithgareddau dyddiol. Gelwir hyn yn "waddol parhaol gweithredol".

24. Mae'r diffiniad o waddol parhaol yn y Ddeddf Elusennau yn aneglur ac anghyson. Yn ddadleuadwy mae'n cynnwys cronfeydd neu asedau na fyddent yn cael eu hystyried yn nodweddiadol gan y sector elusennau i fod yn waddol parhaol. Rydym yn argymhell datblygu diffiniad sydd yn glir, yn gyson ac yn unol â dealltwriaeth y sector o'r term: paragraffau 8.28 to 8.33.
25. Gall elusennau ddymuno gwario rhywfaint neu'r cyfan o'u gwaddol parhaol. Gall y gronfa fod mor fychan fel bod y costau o'i gweinyddu yn anhgymesur â'r incwm mae'n cynhyrchu. Neu efallai bod yr elusen yn dymuno gwneud buddsoddiad cymdeithasol sydd yn debygol o ddisgyn mewn gwerth tra'n hyrwyddo amcanion yr elusen. Fel arall, gall yr elusen fod eisiau defnyddio'r waddol parhaol i gyllido gwaith sylweddol i eiddo'r elusen. Rydym yn adolygu'r grymoedd statudol cyfredol ynghylch gwario gwaddol parhaol yn adrannau 281 i 282 ac adrannau 288 i 289 o'r Ddeddf Elusennau. Mae adran 281, sydd yn berthnasol - yn gyffredinol - i gronfeydd bychain, yn caniatáu i ymddiriedolwyr wario gwaddol parhaol heb arolygiaeth Comisiwn yr Elusennau. Gellir gwario cronfeydd mwy sylweddol gan ddefnyddio'r grym yn adran 282, ond mae penderfyniad yr ymddiriedolwyr yn amodol ar arolygiaeth Comisiwn yr Elusennau. Rydym yn argymhell y diwygiadau canlynol.
- (1) Mae adrannau 288 i 289, sydd yn ymdrin yn benodol gyda gwaddol parhaol a gedwir ar "ymddiried arbennig", ¹³ yn darparu trefniant cyfochrog sydd bron yn union yr un math â'r rhai hynny yn adrannau 281 i 282. Rydym wedi dod i'r casgliad bod unrhyw achos sydd yn disgyn oddi mewn i adrannau 288 i 289 yn disgyn hefyd o fewn adrannau 281 a 282. Felly nid yw adrannau 288 i 289 yn cynnig llawer o fudd ac rydym yn argymhell eu diwygio: paragraffau 8.94 i 8.96.
- (2) Nodir bod y grymoedd statudol dan adrannau 281 a 282 i'w cyfyngu i elusennau anghorfforedig. Mae'r cyfyngiad hwn naill ai yn ddiangen (ac os felly mae'n ddryslyd) neu mae'n gwahardd categori penodol o elusennau heb unrhyw reswm da. Rydym yn argymhell cael gwared ar y cyfyngiad: paragraffau 8.61 i 8.65, a 8.96(1).
- (3) Mae'r trothwyon sydd yn penderfynu a oes yn rhaid i ymddiriedolwyr ddilyn adran 281 (nad yw'n galw am arolygiaeth Comisiwn yr Elusennau) neu adran 282 (sydd yn galw am hyn) yn ddryslyd ac yn arwain at ganlyniadau mympwyol. Pwrpas y trothwyon yw diogelu cronfeydd gwaddol parhaol mwy o ran maint, trwy sicrhau bod rhyddhau cronfeydd o'r math hyn yn amodol ar arolygiaeth. Yng nogleuni sylwadau'r ymgynghoreion, rydym yn argymhell y dylid cael un trothwy ariannol, ar sail gwerth cronfa'r gwaddol parhaol dan sylw, ac y dylid cynyddu gwerth y trothwy o'i lefel cyfredol: paragraffau 8.66 i 8.80, 8.83 i 8.88, a 8.96.
26. Rydym yn trafod dymunoldeb galluogi elusennau i fenthg oddi wrth eu gwaddol parhaol. Rydym wedi dod i'r casgliad byddai grym i i fenthg oddi wrth eu gwaddol parhaol yn ddewis arall i'r grym cyfredol i ryddhau cyfyngiadau gwaddol parhaol yn llwyr. Rydym felly yn argymhell rhoi'r grym i ymddiriedolwyr wario cyfran o waddol parhaol yr

¹³ "Ymddiried arbennig" yw eiddo a ddelir ac a weinyddir gan neu ar ran elusen ar gyfer unrhyw un o ddibenion neilltuoel yr elusen: Deddf Elusennau, adran 287.

elusen, yn amodol ar ofyniad eu bod yn digolledu'r gwariant hwnnw o fewn 20 mlynedd: paragraffau 8.124 i 8.136, a 8.145.

27. Yn olaf, rydym yn trafod elusennau sydd wedi dewis yr hyn a elwir yn fuddsoddiad adenillion llwyr dan Reoliadau (Adenillion Llwyr) Elusennau 2013. Mae optio mewn i fuddsoddiadad enillion llwyr yn galluogi ymddiriedolwyr i fuddsoddi gwaddol parhaol yn fwy hyblyg heb orfod gwahaniaethu rhwng adenillion cyfalaf ac incwm. Rydym yn argymhell grym ychwanegol, ar gyfer ymddiriedolwyr sydd wedi optio mewn i'r gyfundrefn adenillion llwyr, i benderfynu bod modd defnyddio gwaddol parhaol i wneud buddsoddiadau cymdeithasol gydag adenillion negyddol neu ansicr: paragraffau 8.137 i 8.141, a 8.145. Bydd hyn yn galluogi ymddiriedolwyr i ymwneud â ffurf cyfyngedig o "wrthbwysio portffolio"; sef gwrthbwysio unrhyw golledion o fuddsoddiadau cymdeithasol (mewn amgylchiadau lle byddant yn ad-dalu llai na'r gwariant cychwynnol) yn erbyn enillion mewn rhannau eraill o'r portffolio buddsoddi.

TALIADAU I YMDDIRIEDOLWYR AC ERAILL NAD YDYNT YN FUDDIOLWYR (PENODAU 9 A 10)

28. Ym Mhennod 9 rydym yn ystyried a ddylai statud ganiatáu i elusen dalu un o'i ymddiriedolwyr am gyflenwi nwyddau i'r elusen. Gan amlaf ni fedr ymddiriedolwr elusen (1) gael ei hun mewn sefylla lle mae ei ddidordebau personol ef/ei diddordebau personol hi yn gwrthdaro â, neu a allai wrthdaro â, ei ddyletswyddau ef neu ei ddyletswyddau hi i'r elusen, neu (2) elwa o ganlyniad i'w safle ef neu hi fel ymddiriedolwr. Gall y ddyletswyddau hyn, a elwir yn ddyletswyddau ymddiriedol yr ymddiriedolwr, ragwahardd ymddiriedolwr rhag llunio cytundeb gyda'r elusen. Ond gall cytundeb o'r math hwn fod o fudd i elusen; er enghraifft, medr ymddiriedolwr, o bosibl, gyflenwi nwyddau neu wasanaethau ar delerau mwy ffafriol nag y medrai'r elusen eu canfod rhywle arall.
29. Mae Adran 185 o'r Ddeddf Elusennau yn caniatáu i elusen dalu swm rhesymol fel cydnabyddiaeth i ymddiriedolwr sydd yn darparu gwasanaethau i elusen ar wahân i'w dawn/ei ddawn fel ymddiriedolwr; er enghraifft, ymddiriedolwr sydd yn gyfrifydd ac yn darparu gwasanaethau cyfrifyddiaeth i'r elusen. Trwy alluogi'r elusen i dalu'r ymddiriedolwr, mae adran 185 yn awdurdori beth fyddai fel arall yn torri amodau ddyletswydd ymddiried yr ymddiriedolwr, trwy elwa o'i safle fel ymddiriedolwr. Nid oes, fodd bynnag, unrhyw rym cyfatebol i awdurdodi cydnabyddiaeth am gyflenwi nwyddau; er enghraifft ni chaniateir cyflenwi offer swyddfa am bris ei gost, hyd yn oed os yw o fudd i'r elusen. Rydym yn argymhell cyflwyno grym o'r math hwn: paragraffau 9.6 i 9.12.
30. Rydym yn egluro ym mharagraff 28 uchod bod ddyletswyddau ymddiried ymddiriedolwyr yn eu hatal rhag elwa oherwydd eu safle fel ymddiriedolwyr. Mae'n rhaid i ymddiriedolwr sydd wedi gwneud gwaith ar ran yr elusen ac wedi cael budd o wneud hynny ei gyflwyno i'r elusen. Ond mae gan y llys y grym i roi "lwfans ecwitiol" i'r ymddiriedolwr i adlewyrchu sgil ac ymdrech yr ymddiriedolwr wrth wneud y gwaith i'r elusen. Yn yr un modd, gellir rhoi lwfans pan nad yw'r ymddiriedolwr wedi derbyn budd (gan y byddai budd o'r math yn golygu torri amodau ddyletswydd ymddiried), ond lle dylai'r ymddiriedolwr dderbyn budd o'r math i adlewyrchu'r gwaith a wnaed ganddi/ganddo ar gyfer yr elusen. Bydd y llys yn ystyried ffactorau amrywiol wrth benderfynu a ddylid rhoi lwfans ecwitiol, megis a fyddai'r elusen, fel arall, fod wedi gorfod talu i gael rhywun arall i wneud y gwaith a wnaed gan yr ymddiriedolwr. Yn hytrach na chyrchu ceisiadau drud i'r llys am lwfansau

ecwitiol, rydym yn argymhell bod gan Gomisiwn yr Elusennau rymoedd tebyg i awdurdodi ymddiriedolwr (i) i gadw budd a gafodd eisoes, neu (i) i gael cydnabyddiaeth, lle byddai'n anghyfiawn i beidio â gwneud hynny: paragraffau 9.14 i 9.38.

31. Mae Pennod 10 yn ymwneud â thaliadau ex gratia allan o gronfeydd elusen, sef taliadau mae ymddiriedolwyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt eu gwneud, yn foesol, ond nad sydd ganddynt y grym cyfreithiol i'w gwneud. Mae achosion o'r math hyn yn codi yn nodweddiadol adeg gweinyddu ewyllysiau pan na fydd hawl cyfreithiol elusen i eiddo neilltuol yn adlewyrchu gwir fwriadau'r ewyllyswr. Er enghraifft, os yw ewyllyswr wedi gadael ei ystad ef neu ei hystad hi i elusen ac yna'n dweud wrth y cyfreithwyr am newid yr ewyllys er mwyn cynnwys rhodd i aelod o'r teulu, ond yn marw cyn i'r newid gael ei baratoi a'i weithredu, gall ymddiriedolwyr yr elusen ddewis anrhydeddu bwriad yr ewyllyswr trwy wneud taliad ex gratia i'r aelod o'r teulu. Ar hyn o bryd gall ymddiriedolwyr yr elusen ofyn i Gomisiwn yr Elusennau am awdurdodiad i wneud taliad ex gratia. Yn achos taliadau ex gratia bychain, mae costau ceisio cael yr awdurdodiad hwnnw - a'r oedi ynghlwm wrth hyn - yn aml yn anghymesur â gwerth y taliadau. Rydym yn argymhell bod ymddiriedolwyr yr elusen yn cael y grym i wneud taliadau ex gratia sydd yn fach o'u cymharu ag incwm yr elusen heb orfod cael awdurdodiad gan Gomisiwn yr Elusennau: paragraffau 10.5 i 10.27.
32. Ar hyn o bryd rhaid i'r penderfyniad i wneud taliad ex gratis gael ei gymryd gan yr ymddiriedolwyr ac nid gan unrhyw swyddog arall yr elusen (megis y prif weithredwr neu swyddog rhoddion). O'r herwydd, mae adran 106 o'r Ddeddf Elusennau yn datgan, er mwyn gwneud taliad ex gratia, bod yn rhaid i'r ymddiriedolwyr "ystyried eu bod dan rwymedigaeth foesol" i wneud taliad. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylid caniatáu i ymddiriedolwyr ddirprwyo'r penderfyniad i swyddog arall yr elusen, yn union fel y medr ymddiriedolwyr (a disgwylir iddynt) ddirprwyo llawer o swydogaeithau eraill, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd wrth weinyddu elusen. Er mwyn galluogi dirprwyo, rydym yn argymhell bod y prawf ar gyfer gwneud taliad ex gratia yn cael ei ailffurfio i fod yn brawf o hyn - a fyddai'n rhesymol ystyried bod ymddiriedolwyr dan rwymedigaeth foesol i wneud taliad: paragraffau 10.29 i 10.46. Nid yw'r newid hwn yn creu unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i wneud taliad ex gratia, hyd yn oed os medrid ystyried yn rhesymol bod yr ymddiriedolwyr dan rwymedigaeth foesol i wneud taliad. Ymhellach, mae ymddiriedolwyr yr elusen yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer penderfyniadau i wneud taliadau ex gratia (fel gydag unrhyw benderfyniad arall a wneir gan yr elusen). Yr ymddiriedolwyr fydd yn penderfynu a ydynt yn dymuno gwneud taliadau ex gratia yn bersonol, neu a ydynt yn dymuno dirprwyo'r penderfyniad i wneud rhai taliadau ex gratia neu'r oll honynt.

YMGORFFORIAD, CYFUNIAD A METHDALIAD (PENODAU 11 A 12)

33. Mae elusennau yn newid eu strwythur cyfundrefnol am nifer o resymau. Gall elusen anghorfforedig sydd wedi tyfu dros gyfnod o amser gael budd o ymgorffori fel cwmni neu CIO er hwylustod wrth lunio cytundebau ac i gyfyngu ar atebolrwydd yr ymddiriedolwyr. Gall diben elusen gael ei hateb yn well trwy gyfuno gydag elusen arall; er enghraifft er mwy cyflawni'n fwy effeithiol, neu os yw adnoddau elusen fach yn annigonol i gyflawni ei hamcanion yn effeithiol. Ym Mhennod 11 rydym yn adnabod rhai o'r problemau gyda'r gyfraith sydd yn llywodraethu cyfuno ac ymgorffori elusennau; yn benodol y darpariaethau yn y Ddeddf Elusennau sydd yn ymdrin â throsglwyddo eiddo, a rhoddion mewn ewyllys, i elusennau sydd wedi cyfuno.

- (1) Mae Adran 268 y Ddeddf Elusennau yn cyflwyno grym i elusennau drosglwyddo eu heiddo i elusen arall, ond mae'r grym hwnnw ond ar gael i elusennau anghorfforedig gydag incwm blynyddol o £10,000 neu lai nad sy'n berchen ar dir dynodedig.¹⁴ Dywedodd ymgynghoreion wrthym mai anaml y defnyddir y grym hwn am fod gan elusennau yn gyffredinol y grymoedd penodol i gyfuno yn eu dogfennau llywodraethu. Bydd ein hargymhellion ym Mhennod 4 yn galluogi elusennau anghorfforedig nad oes ganddynt rymoedd i gyfuno i newid eu dogfennau llywodraethu fel bod ganddynt grym i wneud hyn. O ganlyniad i'r argymhelliad hwn, bydd adran 268 yn afraid ac felly rydym yn argymhell ei ddiddymu: paragraffau 11.44 i 11.48.
 - (2) Lle bydd cyfuniad wedi ei gofrestru gyda Chomisiwn yr Elusennau, gall yr elusen sydd yn trosglwyddo wneud "datganiad breinio" dan adran 310 y Ddeddf Elusennau sydd yn trosglwyddo, yn awtomatig, eiddo'r elusen sydd yn trosglwyddo i'r elusen newydd. Rydym yn argymhell rhai newidiadau technegol i adran 310 er mwyn cael gwared ar unrhyw amhendantwydd a dryswch ynghlych ei weithrediadau parthed mathau penodol o eiddo: paragraffau 11.50 i 11.80.
 - (3) Lle bydd cyfuniad wedi ei gofrestru gyda Chomisiwn yr Elusennau, bydd rhoddion trwy ewyllys i'r elusen y trosglwyddir iddi yn cael eu hystyried gan adran 311 o'r Ddeddf Elusennau i gael effaith fel rhoddion i'r elusen newydd. Mae cyfradd achosion wedi dangos nad yw'r ddarpariaeth statudol hon mor effeithiol â'r hyn y gobeithiwyd amdano ar y dechrau. O ganlyniad mae llawer o "elusennau cragen" (elusennau sydd yn dal i fodoli yn ffurfiol ond nad ydynt yn gweithredu) yn dal ar y gofrestr er mwyn cipio rhoddion a allai fethu fel arall. Rydym yn argymhell diwygiadau a fyddai'n datrys yr anawsterau hyn ac yn lleihau'r angen i elusennau gadw elusennau cragen: paragraffau 11.82 i 11.103.
34. Adroddodd ymgynghoreion mai un ffactor sydd yn cymhlethu materion mewn llawer cyfuniad yw'r angen i gael "statws ymddiriedolaeth corfforaeth". Corfforaeth ymddiredo yw math penodol o ymddiriedolwr corfforaethol, wedi ei ddiffinio mewn pum statud. Mewn gweinyddiaeth ymddiriedolaeth, mae llawer o fantesion i ymddiriedolwyr fod yn gorfforaethau ymddiried, yn benodol am fod corfforaeth ymddiried yn medru rhoi debynnedd ddilys ar gyfer derbyniadau'r gwerthiant tir ymddiried. Yn absenoldeb corfforaeth ymddiried fel ymddiriedolwr, mae gofyn cael o leiaf dau ymddiriedolwr i gyflwyno derbynnedd ddilys.
 35. Yn y rhan fwyaf o gyfuniadau, bydd elusen yn trosglwyddo ei hasedau i elusen gorfforaethol. Ond ni fydd gwaddol parhaol yn cael ei drosglwyddo o'r elusen gorfforaethol i'w ddal fel eiddo corfforaethol; yn hytrach, mae'n parhau i gael ei ddal ar ymddiried, gyda'r elusen gorfforaethol yr unig ymddiriedolwr yr ymddiriedolaeth. Bydd yn bwysig felly bod gan yr elusen gorfforaethol statws ymddiriedolaeth gorfforaethol fel y gall ddelio gyda'r tir (trwy roi derbynnedd ddilys ar gyfer enillion y gwerthiant). Mae'r un peth yn wir pan fydd elusen gorfforaethol i ddal unrhyw dir fdan ymddiried fel yr unig ymddiriedolwr.
 36. Mae'r tri llwybr cyfredol ar gyfer cael statws ymddiriedolaeth gorfforaethol yn feichus ac yn araf deg. Mae'r cyntaf yn galw am gais i'r Arglwydd Ganghellor; mae'r ail yn galw am

¹⁴ Gweler n 11 uchod.

gynllun Comisiwn Etholiadol i benodi'r ymddiriedolwr; ac mae'r trydydd, sydd ar gael i CIOs yn unig yn galw am i'r cyfuniad gael ei effeithio trwy ddatganiad breinio dan adran 310 y Ddeddf Elusennau (gweler paragraff 33(2) uchod). Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai statws corfforaethol fod ar gael yn ehangach i elusennau corfforaethol sydd yn gweinyddu ymddiriedolaethau elusennol. Rydym yn argymhell bod yr elusennau hyn yn cael y statws yn awtomatig: paragraffau 11.118 i 11.132, a 11.136. Rydym yn nodi hefyd y gellid adolygu sylwadau mwy cyffredinol a wnaed gan ymgynghorwyr ynghylch defnyddioldeb cyson statws corfforaethol ymddiriedolaeth fel rhan o brosiect cyfraith ymddiriedolaeth, a'n bod yn ystyried prosiect o'r math fel rhan o'n 13^{ydd} Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith sydd ar gyrraedd: paragraff 11.116.

37. Mae Pennod 12 ym ymwneud â methdaliad ymddiriedolwyr ymddiriedolaethau elusennol. Rydym yn edrych yn fanwl ar y gyfraith gyfredol ac yn nodi'r amgylchiadau pan fydd eiddo'r ymddiried ar gael i gyflawni cyfrifoldebau ymddiriedolwr. Cafwyd awgrym bod diffyg tryloywder ynghylch argaeledd eiddo sydd wedi ei ddal dan ymddiried elusennol mewn methdalaid, yn enwedig lle mae'r eiddo hwnnw yn waddol parhaol neu wedi ei ddal ar ymddiried arbennig.¹⁵ Awgrymwyd hefyd bod triniaeth methdaliad eiddo o'r math hwn yn wahanol yn ddibynnol ar a yw'r ymddiriedolwr yn gorff corfforaethol neu'n unigolyn. Rydym yn egluro ein barn nad yw'r gyfraith yn ymdrin â gwaddol parhaol ac eiddo ymddiriedolaeth arbennig yn wahanol i eiddo arall ymddiried, a bod y gyfraith ddim yn gwahaniaethu rhwng ymddiriedolwyr corfforaethol ac unigol pan ddaw i ddosbarthu eiddo ymddiried i'w credydwyd. Rydym wedi dod i'r casgliad byddai modd datrys y dryswch sydd yn bodoli ar hyn o bryd pe byddai'r Comisiwn Elusennau yn newid ei ganllawiau ac rydym yn argymhell hynny: paragraffau 12.38 i 12.45.

GRYMOEDD COMISIWN YR ELUSENNAU (PENODAU 13 A 14)

38. Ym Mhennod 13 rydym yn edrych yn fanwl ar rymoedd cyfredol Comisiwn yr Elusennau dan adran 42 y Ddeddf Elusennau sydd yn gofyn am i elusen newid ei henw. Gellir cyflawni'r grym hwn ar unrhyw un o bum sail. Y sail cyntaf - bod enw'r elusen yr un peth â, neu'n rhy debyg i, enw elusen arall - gellir ond defnyddio'r grym hwn mewn perthynas ag elusennau cofrestredig ac o fewn 12 mis i gofrestru'r elusen. Nid yw'r pedwar sail sydd yn weddill yn amodol ar y cyfyngiad hwn ac rydym yn argymhell eu gwaredu: paragraffau 13.35 i 13.38, a 13.43. Mae grym adran 42 ond yn berthnasol i enwau ffurfiol elusennau; ni ellir ei ddefnyddio mewn perthynas ag "enwau gweithredol", a ddefnyddir er hwylustod gan elusennau.¹⁶ Medrai enw gweithredol anaddas gamarwain y cyhoedd i'r un graddau ag enw ffurfiol anaddas. Rydym felly yn argymhell bod y grym i gyflwyno cyfarwyddiadau dan adran 42 yn cael ei ymestyn i enwau gweithredol yn ogystal ag enwau ffurfiol: paragraffau 13.30 i 13.34, a 13.43.
39. Mae Comisiwn yr Elusennau yn ystyried ei hun yn analluog i wrthod cofrestru sefydliad fel elusen (nac oedi cais i gofrestru elusen) ar y sail bod un o seiliau adran 42 yn berthnasol i'w enw, oni bai bod y sefydliad dan sylw yn gwneud cais am gofrestrriad fel CIO. Yn yr un modd, lle mae elusen wedi cofrestru eisoes ond yn newid ei henw, ac felly yn dymuno nodi ei henw newydd ar y gofrestr, ni fedr Comisiwn yr Elusennau wrthod nodi'r enw newydd yn y gofrestr ar un o seiliau adran 42. Mae risg, felly, bod yn

¹⁵ Gweler n 13 uchod.

¹⁶ Er enghraifft, "RSPCA" yw'r enw gweithredol ar Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid.

rhaid nodi enwau anaddas yn y gofrestr ond i'w tynnu oddi yno eto pan fydd y Comisiwn yn defnyddio grym adran 42. Rydym yn argymhell bod Comisiwn yr Elusennau yn cael y grymoedd i oedi cofrestru sefydliad fel elusen, ac o oedi rhag nodi enw newydd ar y gofrestr, am gyfnod cyfyngedig, os yw un o seiliau 42 yn bresennol: paragraffau 13.45 i 13.60.

40. Ym Mhennod 14 rydym yn trafod grym Comisiwn yr Elusennau i benderfynu hunaniaeth aelodau o elusen. Gellir defnyddio'r grym hwn pan fo ansicrwydd ynghylch pwy yw'r aelodau a'r ansicrwydd sydd yn deillio o hynny ynghylch a yw'r ymddiriedolwyr wedi eu hethol yn gywir. Rydym yn trafod a ddylai'r grym hwn gael ei ymestyn i ganiatáu i Gomisiwn yr Elusennau benderfynu hunaniaeth aelodau o elusen. Rydym yn cydnabod na fyddai grym o'r math, o bosibl, yn addas mewn achosion lle byddai angen i'r Comisiwn wneud canfyddiadau o ffeithiau ynghylch hunaniaeth ymddiriedolwyr mewn anghydfod mewnol oddi mewn i'r elusen. Yn yr un modd, rydym yn penderfynu na fyddai grym i'r Comisiwn ddewis pwy ddylai ymddiriedolwyr yr elusen fod (yn hytrach na phwy yw'r ymddiriedolwyr) yn ddymunol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell grym cyfyngedig i Gomisiwn yr Elusennau gadarnhau penodiadau neu etholiadau annilys neu ansicr: paragraffau 14.17 i 14.29. Bydd y grym hwn yn galluogi Comisiwn yr Elusennau i gadarnhau penodiad neu ethol ymddiriedolwr lle bydd ansicrwydd ynghylch a oedd person penodol wedi cael ei h/apwyntio neu ei h/ethol yn gywir.

Y TRIBIWNLYS ELUSENNAU A'R LLYSOEDD (PENNOD 15)

41. Mae Pennod 15 yn ymwneud â gweithrediadau gan elusennau (1) yn y llysoedd a (2) yn Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Uwch (Siambr Treth a Siawnsri), yr ydym yn cyfeirio ato fel y Tribiwnlys Elusennau.
42. Nid oes modd i weithrediadau llys sydd yn disgyn oddi mewn i'r diffiniad statudol o "weithrediadau elusen" yn adran 115 y Ddeddf Elusennau gael eu canlyn heb gydsyniad Comisiwn yr Elusennau neu, os yw'r Comisiwn yn gwrthod cydysnio, y llys. Mae'r diffiniad o weithrediadau elusen yn gwahaniaethu rhwng gweithrediadau ynghylch anghydfod oddi mewn i'r elusen, megis hawliadau am y ffordd mae'r elusen yn cael ei rhedeg (sydd yn galw am awdurdodiad) ac anghydfod gyda thrydydd partïon, megis hawliadau ynghylch torri amodau cytundeb (nad sydd angen awdurdodiad).
43. Crëwyd Y Tribiwnlys Elusennau gan Ddeddf Elusennau 2006. Mae'n clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau amrywiol Comisiwn yr Elusennau, yn ogystal â chyfeiriadau gan Gomisiwn yr Elusennau neu'r Twrnai Cyffredinol sydd yn codi cwestiynau ynghylch cyfraith elusennau. Nid oes gofyniad i gael caniatâd cyn dechrau gweithrediadau yn y Tribiwnlys.
44. Ym Mhennod 15, rydym yn ymdrin â phedwar mater: (i) awdurdodiad i ganlyn "gweithrediadau elusen"; (ii) diogelu costau yn y Tribiwnlys Elusennau; (iii) gohirio penderfyniadau tra'n aros her; a (iv) y dull o gyfeirio at y Tribiwnlys.
45. Bydd ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig sydd ymghlwm â gweithrediadau cyfreithiol eisiau sicrhau bod modd i'r costau a ddaw i'w rhan (ac unrhyw orchmynion costau a wneir yn eu herbyn) gael eu talu o gronfeydd yr elusen. Gall yr ymddiriedolwyr ond talu'r costau hynny o gronfeydd yr elusen os ydynt yn golledion cywir. Mewn achosion llys, gall ymddiriedolwyr gael "*gorchymyn* Beddoe" wrth y llys, sydd yn rhoi sicrwydd rhag blaen iddynt bod yr achosion arfaethedig er budd yr elusen a bod modd talu'r costau i'r

ymddiriedolwyr sydd yn deillio o'r achosion o gronfydd yr elusen. Mae cais am *orchymyn* Beddoe gyfystyr â "gweithrediadau elusen" ac felly mae'n rhaid cael caniatâd Comisiwn yr Elusennau. Mae'r gofyniad hwn yn creu gwrthdaro buddiannau pan fydd yr achosion sylweddol yn erbyn Comisiwn yr Elusennau. Rydym yn argymhell, lle byddai Comisiwn yr Elusennau yn wynebu gwrthdaro buddiannau go iawn neu ymddangosiadol wrth rhoi awdurdodiad i ganlyn "gweithrediadau elusen", dylai fod gan elusennau yr opsiwn o gael awdurdodiad o'r math gan y llys yn hytrach na'r Comisiwn: paragraffau 15.5 to 15.18.

46. Ni ellir cael gorchymyn *Beddoe* oddi wrth y Tribiwnlys Elusennau mewn perthynas ag achosion Tribiwnlys. Rydym yn argymhell bod y Tribiwnlys Elusennau yn cael y grym i wneud "gorchmynion costau awdurdodedig" a fyddai gyfwerth â gorchymynion *Beddoe*: paragraffau 15.28 i 15.47. Bydd y grym hwn yn galluogi ymddiriedolwyr sydd yn canlynachosion yn y Tribiwnlys Elusennau i gael sicrwydd rhag blaen bod modd talu'r costau sydd yn deillio o'r achosion o gronfydd yr elusen.
47. Pan fydd penderfyniad a wnaed gan Gomisiwn yr Elusennau yn cael ei herio yn y Tribiwnlys Elusennau, ar hyn o bryd ni fedr y Tribiwnlys atal effeithiau'r penderfyniad tra'n aros am ganlyniad yr her. Rydym yn ystyried a ddylid cyflwyno grym i atal y penderfyniad. Rydym wedi dod i'r casgliad tra bod grym o'r math hwn yn ddymunol mewn egwyddor, byddai goblygiadau defnyddio'r fath rym yn astrus ac, o bosibl, yn anfanteisiol. Yn lle hynny rydym yn argymhell bod Comisiwn yr Elusennau yn gohirio'r dyddiad pan fydd ei benderfyniadau yn cymryd effaith er mwyn caniatáu amser i herio (naill ai i'r Tribiwnlys neu'r llys) lle mae'r penderfyniad yn debygol o fod yn ddalduol a lle nad oes pwysau o ran amser: paragraffau 15.49 i 15.58.
48. Yn olaf, rydym yn trafod cyfeiriadau oddi wrth Gomisiwn yr Elusennau a'r Twrnai Cyffredinol i'r Tribiwnlys Elusennau. Rydym yn nodi'r gofyniad cyfredol bod Comisiwn yr Elusennau yn cael cydsyniad y Twrnai Cyffredinol cyn cyfeirio at y Tribiwnlys a dymunoldeb y gofyniad hwnnw. Rydym wedi dod i'r casgliad na ddylai fod angen i Gomisiwn yr Elusennau gael cydsyniad y Twrnai Cyffredinol cyn cyfeirio at y Tribiwnlys ac rydym yn gwneud argymhelliad i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod angen i Gomisiwn yr Elusennau a'r Twrnai Cyffredinol roi rhybudd o bedair wythnos i'w gilydd ynghylch unrhyw gyfeiriad a fwriedir: paragraffau 15.59 i 15.67.

CASGLIADAU

49. Mae ein Hadroddiad yn cwmpasu ystod eang o faterion technegol ym maes cyfraith elusennau. Tra'n dechnegol, mae ein hargymhellion yn bwysig ac mae ganddynt ganlyniadau ymarferol go iawn i elusennau. Maent wedi eu cynllunio i wella diogelwch a rheoleiddio elusennau, tra'n eu galluogi, gyda gouchwyliaeth priodol, i weithio'n fwy effeithiol er mwyn cyflawni eu pwrpasau gwerthfawr. Byddai gweithredu ein hargymhellion yn cael gwared ar ansicrwydd yn y gyfraith a rheoliadau diangen, a all beri oedi neu atal rhai gweithgareddau elusennol, annog gwirfoddolwyr i beidio â bod yn ymddiriedolwyr, a mynnu bod elusennau yn cyrchu cyngor cyfreithiol drud sydd y tu hwnt i afael rhai elusennau (yn enwedig rhai bach).